Cyngor Cymuned Llanrhaeadr Ym Community Council

Llanrhaeadr Ym Mochnant yw'r pentref mwyaf yn Nyffryn Tanat yng ngogledd Sir Powys, l'r dwyrian o fynyddoedd y Berwyn. Mae Croesoswallt 14 milltir I'r dwyrain, Bala 18 milltir I'r gorllewin dros y mynydd, Llanfyllin 6 milltir I'r de a'r Trallwng 18 milltir i'r de.Yr afon Rhaeadr sy'n llifo trwy'r pentref cyn ymuno â'r Tanat ychydig islaw.Bu'r afon yn ffin rhwng Powys Wenwynwyn a Phowys Fadog (1160) ac yn ddiweddarach rhwng siroedd Trefaldwyn a Dinbych,(1536) Powys a Chlwyd (1974) cyn i'r pentref gyfan ddychwelyd yn ôl I Bowys yn 1996.

Yma y bu Dr William Morgan yn cyfieuthu'r Beibl i'r Gymraeg tra' n ficer y plwyf rhwng 1578-1595.Heb Feibl 1588 mi fyddai hanes Cymru wedi bod yn dra wahanol, a'r iaith Gymraeg wedi hen ddiflannu.

Pedair milltir o'r pentref, i fyny cwm cul, mae Pistyll Rhaeadr, 240 o droedfeddi o uchder ac yn un o Saith Rhyfeddod Cymru, yn ôl yr hen rigwm.

Agorwyd ysgol gynradd newydd yma yn 2009 gyda 80 o blant, a Neuadd Gyhoeddus newydd yn 2012 sy'n fwrlwm o weithgaredd. Cafodd y pentref ei enwogi gan y ffilm "The Englishman who went up a hill, but came down a mountain" (1995)

Er mai ardal y ffin yw hon,mae'n ymfalchio yn ei Chymreigrwydd.